COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD LLUN, 10 GORFFENNAF 2023, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| E L P Caparros | P Ford | D T Harrison | D M Hughes |
| M Lewis | J Llewellyn-Hopkins | RL Penhale-Thomas | A Wathan |
| R Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Ymddiheurodd y Cynghorydd Paul Davies y byddai'n rhaid iddo adael y cyfarfod yn gynnar.

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Richard Hughes | Chief Executive, Awen Trust |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Andrew Thomas | Rheolwr Grŵp - Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol |
| David Wright | Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Councillor Neelo Farr | Aelod Cabinet Adfywio |
| Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar |

37. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Datganodd Maxine Lewis fuddiant personol yn eitem 3 ar yr Agenda gan ei bod yn rhedeg clwb ieuenctid o Ganolfan Hamdden Halo.

38. ATAL A LLES, HAMDDEN (HALO) AC YMDDIRIEDOLAETHAU DIWYLLIANNOL (AWEN) AC INTEGREIDDIAD PELLACH Â BAVO.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y ffordd y mae gwasanaethau a chyfleoedd sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth â Hamdden Halo ac Awen yn cefnogi lles unigolion a chymunedau ac yn cyfrannu at amcanion llesiant y Cyngor, a rhoi gwybodaeth am y gwaith partneriaeth sy'n cael ei ddatblygu gyda BAVO a'r trydydd sector ehangach i gefnogi pobl yn eu cymunedau a datblygu cymunedau iach a hapus.

Cyflwynodd y gwahoddedigion o sefydliadau partner, Hamdden Halo, Awen a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) eu hunain a rhoi crynodebau byr am ymwneud eu sefydliad â'r Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Gwahoddedigion a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Pwysigrwydd cyfleusterau hamdden a diwylliannol mewn cymunedau, sut y gellid hyrwyddo llyfrgelloedd yn well a'r adnoddau sydd ar gael mewn llyfrgelloedd lleol gan gynnwys llyfrau, DVDs, gwybodaeth hanesyddol ac archifau a chyfleusterau TGCh.
- Yr ardaloedd a gwmpesir gan y gwasanaeth llyfrgell symudol 'Llyfrau ar Glud' ac ymweliad posibl Aelodau â'r cyfleuster.
- Manteision, o ran iechyd ac arian, darparu gwasanaethau hamdden a diwylliannol anstatudol, y graddau y mae gwasanaethau atal a llesiant yn atal rhag gwaethygu i ddibynnu ar wasanaethau statudol, a gwerthfawrogiad Llywodraeth Cymru o'r rhaglen ymyrraeth gynnar.
- Pwysigrwydd cynaladwyedd gwasanaethau a'u darparu'n lleol, elw cymdeithasol ar fuddsoddiad a dealltwriaeth o'r agenda 15 munud a gwybodaeth anghywir yn ei chylch.
- Lefelau'r rhai sy'n ymweld â chyfleusterau hamdden a hybiau cymunedol cyn ac ôl-bandemig, manteision aelodaeth am ddim neu ostyngol sydd ar gael a'r awydd i gynyddu cyfranogaeth.
- Sicrhau hygyrchedd, yn enwedig o ystyried yr argyfwng costau byw, pwysau costau ynni uwch a chwyddiant, a sicrhau bod gwasanaethau gwerthfawr yn cael eu cynnal ag arian grant a buddsoddiad, gan gynnwys buddsoddiad i sicrhau effeithlonrwydd ynni.
- Adroddiadau bod canolfannau penodol yn cau a pha mor aml y caiff boddhad cwsmeriaid ei fesur.
- Y Cyllid Lefelu i sicrhau dyfodol Pafiliwn y Grand a maint y gwaith adnewyddu arfaethedig.
- Manteision cynlluniau atgyfeirio a'u hysbysebu'n effeithiol a rhaglenni penodol fel Pobl Ifanc Egnïol Pen-y-bont ar Ogwr, Partneriaeth Byw'n Iach, Henoed Gwych, Esgyniad a Pharth Teuluoedd Egnïol.
- Pwysigrwydd grwpiau a gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau elusennol a gwirfoddol, sy'n cynorthwyo cymunedau i wneud mwy drostynt eu hunain a rolau BAVO a Chydlynwyr Cymunedol Lleol.
- Cynaladwyedd hirdymor ac adnoddau a phwysigrwydd cydweithio llwyddiannus a gweithio mewn partneriaeth i gyfrannu at amcanion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chyfrifoldebau rhianta corfforaethol.
- Her Ddarllen yr Haf a lansiwyd yn ddiweddar a mentrau eraill i annog a chefnogi llythrennedd.
- Gwersi a ddysgwyd o ganolfannau cynnes.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd, os nad oedd eu hangen ar gyfer yr eitem nesaf, eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

| | |
|---|---|
| <u>PENDERFYNWYD</u>: | Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda'r Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gofynnodd y Pwyllgor am gael: |

1. Trefnu ymweliad i Aelodau'r Pwyllgor â gwasanaeth llyfrgell deithiol Llyfrau ar Glud i roi dealltwriaeth iddynt o'r meysydd y mae'n eu cwmpasu a'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd.

2. Dadansoddiad yn ôl nodwedd o nifer y cyfranogwyr sy'n defnyddio cyfleusterau hamdden sy'n derbyn aelodaeth/mynediad am ddim neu â chymhorthdal.

3. Copi o'r cyflwyniad i'w rannu gyda'r holl Aelodau, yn dangos y weledigaeth a'r gwaith sydd i'w wneud ym Mhafiliwn y Grand ym Mhorthcawl, gan ddefnyddio'r Cyllid Lefelu.

4. O ran y gwaith partneriaeth gyda Hamdden Halo ac Awen, a oes cynlluniau i gysoni'r llinellau amser, gan fod y Bartneriaeth Byw'n Iach gyda Hamdden Halo wedi cael ei sefydlu am gyfnod o 15 mlynedd yn 2012 a'r cytundeb partneriaeth ag Awen yn rhedeg tan 2035.

39. <u>CYNLLUN CYNALIADWYEDD 3 BLYNEDD I WELLA CANLYNIADAU AR GYFER GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD YM MHEN-Y-BONT AR OGWR</u>

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yr adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno i'r Pwyllgor y cynllun 3 blynedd i wella canlyniadau i blant a theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bwriadwyd iddo fod yn destun ymgynghori ac ymgysylltu dros yr haf cyn ei gyflwyno i'r Cabinet yn yr Hydref i'w gymeradwyo. Tynnodd sylw at y ffordd y cafodd y cynllun ei ddatblygu a'i amcanion.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Trosolwg ar y trefniadau staffio ym maes Gofal Cymdeithasol Plant, cyflogi staff asiantaeth i wneud i fyny am swyddi gwag a rhoi adnoddau i dimau uwchlaw'r sefydliad i gyflawni cyfrifoldebau statudol.
- Lefelau llwythi achosion ymarferwyr, lefelau gwahanol o ddwysedd a'r angen i weithio'n effeithlon, yn ddiogel ac yn gynaliadwy.
- Y thema strategol, 'Cudd-wybodaeth a systemau gwybodaeth gwell', y systemau TGCh a ddefnyddir gan asiantaethau amrywiol, y prosiect i wella WCCIS a diweddariad ar weithredu model ymarfer Arwyddion Diogelwch gan gynnwys ei rôl yn gwella'r arfer o gofnodi gwybodaeth i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n ystyrlon ac yn amserol.
- Cost gweithredu'r Cynllun, a byddai'r manylion am hyn yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet, gwariant drwy gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a gorwariant ac effaith demograffeg ar geisiadau am arian grant.
- Sicrhau mynediad at gymorth cyn-statudol i blant a theuluoedd a'r ystod o ffactorau sy'n cyfrannu at y cynnydd sylweddol yn y galw am ofal cymdeithasol statudol plant gan gynnwys y cyhoeddusrwydd i drychinebau lleol diweddar, effaith y pandemig ac ymwybyddiaeth broffesiynol.
- Gwaith partneriaeth di-dor yn hanfodol i weithrediad y Cynllun.
- Symleiddio'r trefniadau cyswllt i osgoi dryswch ynghylch gwasanaethau ac â phwy i gysylltu.
- P'un ai'r saith thema strategol a nodir yn y Cynllun oedd y rhai cywir a'r cyfan yn gweithio gyda'i gilydd.
- Fformat y tabl 'Camau gweithredu allweddol tair blynedd fesul blwyddyn', y posibilrwydd o gynnwys mesurau ychwanegol a sut y caiff y Cynllun ei fonitro.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda'r Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhelliad canlynol:

5. Ychwanegu colofn ychwanegol at y Cynllun i gynnwys mewn tabl, pa gamau sy'n dangos llwyddiant a sut mae'r llwyddiannau hynny'n cael eu mesur.

a gofynnodd y Pwyllgor:

6. am i'r Pwyllgor gael derbyn diweddariad chwarterol ar weithrediad y Cynllun.

7. am eglurder ynghylch sut mae'r ddemograffeg, y proffil oedran, amddifadedd ac unrhyw ffactorau eraill yn effeithio ar y fformiwla ar gyfer ceisiadau am arian grant.

40. ADRODDIAD ENWEBU HYRWYDDWR RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Swyddog Craffu yr adroddiad oedd yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod fel ei Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol i gynrychioli'r Pwyllgor fel yr un i gael ei gwahodd i gyfarfodydd Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet.

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau, ac yn dilyn hynny

PENDERFYNWYD: Enwebu'r Cynghorydd Maxine Lewis i gynrychioli Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2 fel un i gael ei gwahodd i gyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol.

41. YMATEB Y CABINET I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR A WNAED PAN GAFODD PENDERFYNIAD Y CABINET YNGHYLCH ADFYWIO GLANNAU PORTHCAWL EI ALW I MEWN: MEDDIANNU TIR YM MHARC GRIFFIN A SANDY BAY

Cyflwynodd y Swyddog Craffu'r adroddiad, a'i bwrpas oedd cyflwyno i'r Pwyllgor ymateb y Cabinet i'r Argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor pan gafodd Penderfyniad y Cabinet ar 18 Hydref 2022 ei alw i mewn, mewn perthynas â'r adroddiad ar Adfywio Glannau Porthcawl: Meddiannu Tir ym Mharc Griffin a Sandy Bay, a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 17 Ionawr 2023.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi ymateb y Cabinet oedd ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad.

42. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu'r Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A i'r Pwyllgor ei thrafod a'i hystyried, gan ofyn am unrhyw wybodaeth benodol a nodwyd gan y Pwyllgor i'w chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys y bobl y dymunent eu gwahodd i fod yn bresennol. Gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith gan gofio'r meini prawf dethol ym mharagraff 3.6 a Dangosfwrdd Perfformiad SSWB yn Atodiad 3. Gofynnodd i'r Pwyllgor

nodi’r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B a gofynnodd i’r Pwyllgor nodi y ceid adroddiad am y Flaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor a’r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.

Ni nodwyd unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith gan ystyried y meini prawf dewis ym mharagraff 3.6, a gellid ailedrych ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

| | |
|---|---|
| PENDERFYNWYD: | Bod y Pwyllgor yn nodi’r Flaenraglen Waith yn Atodiad, A, yn nodi’r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B, ac yn nodi y ceid adroddiad am y Flaenraglen Waith, y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yng nghyfarfod nesaf COSC. |

43. EITEMAU BRYS

Dim.